***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1027 (Cy. 220)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *10 Hydref 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *10th Hydref 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 a deuant i rym ar 10 Hydref 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "Rheoliadau 2018" ("*the 2018 Regulations*") yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018(**2**);

(b) mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

**Cymhwyso**

**3.** Yn ddarostyngedig i reoliad 4, mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiadau eiddo preswyl—

(a) sydd â dyddiad cael effaith ar neu ar ôl 10 Hydref 2022; a

(b) y mae Tabl 1 o'r Atodlen i Reoliadau 2018 yn gymwys iddynt.

(**1**) 2017 dccc 1.
(**2**) O.S. 2018/128 (Cy. 32), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/794 (Cy. 174) ac O.S. 2020/1618 (Cy. 339).

**4.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drafodiad a bennir yn rheoliad 3—

(a) os yw'r prynwr yn gwneud dewis yn unol â rheoliad 6; a

(b) naill ai:

(i) y rhoddir effaith i'r trafodiad yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo ac a gyflawnwyd yn sylweddol cyn 10 Hydref 2022; neu

(ii) y rhoddir effaith i'r trafodiad yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo ond nas cyflawnwyd yn sylweddol cyn 10 Hydref 2022 ac nad yw wedi ei eithrio gan reoliad 5.

**5.** Mae trafodiad wedi ei eithrio gan y rheoliad hwn os yw'n drafodiad a bennir yn rheoliad 3 y rhoddir effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo cyn 10 Hydref 2022 ac—

(a) pan geir unrhyw amrywiad i'r contract, neu pan aseinir hawliau o dan y contract, ar neu ar ôl 10 Hydref 2022;

(b) pan roddir effaith i'r trafodiad o ganlyniad i arfer unrhyw opsiwn, hawl rhagbrynu neu hawl debyg ar neu ar ôl 10 Hydref 2022; neu

(c) pan geir, ar neu ar ôl 10 Hydref 2022, aseiniad, is-werthiant neu drafodiad arall yn ymwneud â'r cyfan neu ran o bwnc y contract, y caiff person heblaw'r prynwr o dan y contract hawl i alw am drosglwyddiad o ganlyniad iddo.

**6.**—(1) Rhaid i ddewis o dan reoliad 4—

(a) cael ei gynnwys mewn ffurflen dreth a gyflwynir i ACC mewn cysylltiad â'r trafodiad, neu mewn diwygiad i'r ffurflen honno; a

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir gan ACC ynghylch ei ffurf neu'r modd y caiff ei gynnwys.

(2) Ni chaiff prynwr ond gwneud dewis o dan reoliad 4 pan nad yw effaith dewis o'r fath yn arwain at godi mwy o dreth na fyddai wedi digwydd fel arall.

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

**7.**—(1) Mae'r Atodlen i Reoliadau 2018 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn lle Tabl 1 rhodder—

**"Tabl 1**

**Trafodiadau eiddo preswyl**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £225,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £225,000 ond nid mwy na £400,000 | 6% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 10% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £1,500,000 | 12%" |

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128) ("Rheoliadau 2018") er mwyn mewnosod bandiau treth a chyfraddau treth canrannol diwygiedig ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl.

Mae rheoliad 3 yn cymhwyso'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol diwygiedig at drafodiadau eiddo preswyl pan fo'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith ar neu ar ôl 10 Hydref 2022.

Mae rheoliad 4 yn mynd ymlaen i nodi eithriadau i gymhwysiad cyffredinol y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol diwygiedig mewn cysylltiad â thrafodiadau eiddo preswyl. Pan fo'r dyddiad y mae'r trafodiadau hyn yn cael effaith ar neu ar ôl 10 Hydref 2022, ond cafodd contractau eu cyfnewid, neu cafodd y contract hwnnw ei gyflawni'n sylweddol cyn 10 Hydref 2022, caiff y prynwr ddewis cymhwyso'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol a oedd ar waith cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym at y trafodiad hwnnw. Ni ellir gwneud dewis o'r fath mewn amgylchiadau a nodir yn rheoliad 5. Rhaid gwneud y dewis yn unol â gofynion rheoliad 6, sydd hefyd yn darparu na ellir ond gwneud dewis o'r fath os na fyddai hynny'n arwain at godi mwy o dreth na fyddai wedi digwydd fel arall.

Mae rheoliad 7 yn nodi'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol diwygiedig a fydd yn gymwys i'r trafodiadau a bennir yn rheoliad 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru .